OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2012 Rhif 427 (Cy. 69)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Trefynwy, Sir Fynwy) (Cyfyngu a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Wedi ei wneud* | *17 Chwefror 2012* |
| *Yn dod i rym* | *27 Chwefror 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Caerwrangon (A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd gael ei wahardd a'i gyfyngu oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall,**(2)** yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 27 Chwefror 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Trefynwy, Sir Fynwy) (Cyfyngu a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2012.

**2.**—1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20.00 o'r gloch ar 27 Chwefror 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd droi i'r chwith ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr, ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 yn ystod yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 6 ar waith.

**8.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Trefynwy, Sir Fynwy) (Terfyn Cyflymder 50 MYA) 2007,**(3)** drwy hyn wedi'u hatal o ran y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlenni'r Gorchymyn hwn yn ystod yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau y cyfeirir atynt yn erthyglau 5 a 6 ar waith.

**9.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond yn ystod yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 17 Chwefror 2012

***G MORGAN***
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 2007/1333 (Cy.126)

**ATODLENNI**

**ATODLEN 1**

**GWAHARDD TROI I'R CHWITH DROS DRO**

Y troad i'r chwith i gerbydau sy'n teithio tua'r gogledd oddi ar y gefnffordd i'r A466, Wyebridge Street.

**ATODLEN 2**

**HYD A LLED Y TERFYN 10 MYA DROS DRO A'R GWAHARDDIAD AR ODDIWEDDYD**

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gogledd sy'n ymestyn o bwynt canol ei chyffordd â'r B4293, Beech Road, hyd at bwynt 100 metr i'r gogledd o'i chyffordd â'r A466.

**ATODLEN 3**

**HYD A LLED Y TERFYN 30 MYA DROS DRO**

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gogledd sy'n ymestyn o bwynt 50 metr i'r de o Borth Deheuol Twnnel Gibraltar hyd at bwynt canol ei chyffordd â'r B4293.

**ATODLEN 4**

**HYD A LLED Y TERFYN 50 MYA DROS DRO**

Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r gogledd sy'n ymestyn o bwynt 1500 metr i'r de o Borth Deheuol Twnnel Gibraltar hyd at bwynt 50 metr i'r de o Borth Deheuol Twnnel Gibraltar.